CYNGOR TREF FFESTINIOG

Swyddfa'r Cyngor 5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog Gwynedd LL41 3ES
☎ 01766 832398
cyngortrefffestiniog@tiscali.co.uk

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL O'R CYNGOR GYNHALIWYD NOS WENER 4ydd o FAI 2007 YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd David Lloyd Hughes

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: H. Emyr Jones, Agnes Edwards, Dafydd G. Dafis, Arthur H. Williams, Morfydd Lloyd, Linda A.W.Jones, Mel Goch ap Meirion, Margretta Young-Jones, Ceinwen Ll. Humphreys, Eddie Roberts a George Hughes

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Arwel Jones, Rhian Williams a Carolyn Iolo.

Cymerwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

7051/05/07 DATGAN DIDDORDEBAU

Cynghorydd Linda A. W. Jones	-	Pob Cais Cynllunio
Cynghorydd George Hughes	-	Ceisiadau Cynllunio Priodol, Yr Heddlu

7052/05/07 CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Margretta Young-Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2007/2008.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes y gadwyn swydd i'r Cynghorydd Margretta Young-Jones a dymunodd pob llwyddiant iddi yn ei swydd fel Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog. Diolchodd y Cynghorydd Margretta Young-Jones am y fraint o gael ei hethol fel Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog.

Darllenodd y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes lythyr a oedd wedi ei gyflwyno i'r clerc ar ddechrau'r cyfarfod. Diolchodd y cyn Gadeirydd i'w gyd gynghorwyr am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod y deunaw mis diwethaf. Dywedodd iddo gael pleser mawr o gyd weithio a swyddogion Cyngor Gwynedd i drefnu'r goleuadau Nadolig, sgipiau cymunedol, llinellau melyn dwbl a chael y fraint o chwifio'r Ddraig Goch yn Sgwâr Diffwys.

Aeth ymlaen i ddarllen nad oedd wedi hoffi'r ddyletswydd o ddelio'r a'r cais o enllib a ddygwyd yn erbyn y Cyngor Tref a Mr Elwyn Hughes, cyn clerc y Cyngor, gan y Cynghorydd George Hughes. Oherwydd iddo deimlo'n gryf iawn na allai gyd weithio bellach gyda'r Cynghorydd George Hughes, bu iddo ymddiswyddo fel cynghorydd yn cynrychioli ward Diffwys a Maenofferen ar Gyngor Tref Ffestiniog.

Diolchodd gynghorydd i'r cynghorydd Dafydd Ll. Hughes am y gwaith hynod o dda mae wedi ei gyflawni tra yn y Gadair a dywedodd ei bod yn amlwg bod ysgrifennu'r llythyr wedi bod yn galed iawn arno.

Dywedodd sawl cynghorydd bod y cyhoeddiad hwn yn sioc fawr iddynt a efynnwyd arno i ail feddwl gan iddo fod yn gynghorydd mor weithgar. Dywedwyd bod posibilrwydd i fwy o gynghorwyr ymddiswyddo yn ei sgil a fydd yn rhoi dyfodol y Cyngor Tref mewn perygl.

Yn anffodus ni fu'n bosib newid meddwl y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes a gadawodd y cyfarfod.

7053/05/07 IS GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Eddie Roberts yn Is Gadeirydd am y flwyddyn 2007/2008.

Diolchodd y Cynghorydd Eddie Roberts i'w gyd gynghorwyr am ei ethol.

7054/05/07 AELODAU O'R IS BWYLLGOR

Yn ystod y drafodaeth i benodi aelodau o Is Bwyllgor y Cyngor dywedodd y Cynghorydd Dafydd Gwallter Dafis iddo gefnogi'r safiad a wneir gan Dafydd Ll. Hughes ac iddo benderfynu na allai aros mwyach yn y cyfarfod gan fod ganddo angen ystyried ei swydd fel cynghorydd a gadawodd y cyfarfod.

Rhoddwyd cynnig, a gafodd ei eilio, a chafodd gefnogaeth yr holl gynghorwyr a oedd yn bresennol i'r Cadeirydd roddi caniatâd i'r Cyngor roddi'r Rheolau Sefydlog o'r neilltu. Rhoddwyd y caniatâd hwn.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd penderfynodd y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion na welai ddiwedd i'r busnes a gadawodd y cyfarfod.

Penderfynodd sawl cynghorydd eu bod am adael y cyfarfod ond nid oeddynt am ddylanwadu ar unrhyw gynghorydd arall.

Gosodwyd y Rheolau Sefydlog yn ôl a chan nad oedd cworwm gan y Cyngor daeth y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 7.45 yr hwyr.